# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Medi 2018

Amser: 09.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

---

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.45-10.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr oddi wrth Asiant Cefnffyrdd De Cymru

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-20-18-(P1) Llythyr oddi wrth Asiant Cefnffyrdd De Cymru (Saesneg yn unig)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4 a 5

## 4 Trafod yr adroddiad drafft - Cyflwr y Ffyrdd

(10.00-10.45) (Tudalennau 3 - 38)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-20-18-(P2) Cyflwr y Ffyrdd (Saesney yn unig)

## 5 Papur cwmpasu - Gwefru cerbydau trydan yng Nghymru

(10.45-11.00) (Tudalennau 39 - 45)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-20-18-(P3) Papur cwmpasu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

**Egwyl** (11.00-11.15)

## 6 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth - Y Cynllun Gweithredu Economaidd a'r gyllideb yn ystod y flwyddyn 2018-19

(11.15-12.30) (Tudalennau 46 - 69)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd

Dean Medcraft, Director, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Marcella Maxwell, Pennaeth Cynllun Gweithredu Economaidd

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-20-18-(P4) Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Ôl-drafodaeth breifat** (12.30-12.40)

Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

Yn gweithio ar ran
Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the
Welsh Government

| | |
|---|---|
| 19 July 2018 | Date |
| 01792 325900 | Direct Line |
| enquiries@southwales-tra.gov.uk | E-Mail |
| Enquiries | Contact |
| | Your Ref |
| E1804053/DB/CLF/194968 (Please quote in all replies) | Our Ref |

Robert Lloyd-Williams
Deputy Clerk
Economy, Infrastructure and Skills Committee
National Assembly for Wales

SeneddEIS@assembly.wales

Dear Robert

**RE: TRAWSGRIFIAD EIS TRANSCRIPT – 05 JULY 2018**

We write further to the commitment made during our evidence session to the committee in relation to a series of questions from Lee Waters AM in relation to the Active Travel (Wales) Act 2013.

The primary question appears to relate to what has changed in relation to the work of the Trunk Road Agents as a result of the Act.

As stated in the evidence provided to the committee from a highway maintenance perspective, both reactive and like for like planned maintenance, the Act has not significantly changed the activities as undertaken by the Agent on behalf of the Welsh Government.

The main impact for Agent activities as a result of the Act has occurred in relation to two main areas of operations, namely;

- The implementation of design guidance to conform to the requirements introduced in the Act and the changes that this has had on scheme design for active travel routes on the trunk road network.

**Richard Jones** BSc(Hons) C.Eng C.Env FICE FCIHT
Head of Service - South Wales Trunk Road Agent
Pennaeth Gwasanaeth - Asiant Cefnffyrdd De Cymru
*Unit 12, Llandarcy House, The Courtyard, Llandarcy, Neath SA10 6EJ*
E-mail: enquiries@southwales-tra.gov.uk
Tel: 01792 325900, Fax: 01792 325902
www.southwales-tra.gov.uk
*LH0676*

It has always been a requirement of the Agent that Consultants and Contractors give consideration to all relevant legislation when undertaking their activities, and all are briefed accordingly. The specific focus on the Act has been consolidated by the publication of the WelTAG 2017: Welsh Transport Appraisal Guidance and its accompanying Supplementary Guidance, which specifically identifies the Active Travel (Wales) Act 2013 for consideration as a requirement of the WelTAG process. Since this time the Agent has identified project briefs from the Welsh Government Planning team that make specific reference to consideration of the Act, and the Agent has in turn stipulated this explicitly in the briefs that it is providing to its consultants.

- Being mindful of active travel user considerations in the operation of highway management functions delegated to Agents.

  The duties imposed by the Act has brought to the forefront the needs of active travel users during scrutiny and inspections of network intervention activities such as skip and scaffold licencing and management of other possible highway obstructions, both unauthorised and authorised.

The Agent will continue to work closely with the Welsh Government in the delivery of this Act and all other legislative requirements on the Trunk Road Network.

We hope that this information has addressed the questions raised and assists the Committee in continuing this inquiry.

Yours sincerely

**Richard Jones**
**Head of South Wales Trunk Road Agent**

*We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.*

*Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.*

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Memorandwm Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wrth**

**Graffu ar Gynllun Gweithredu Economaidd a Chyllideb yn ystod y Flwyddyn 2018-19**

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – 19 Medi 2018**

## 1.0 Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y Cynllun Gweithredu Economaidd, y polisïau a’r penderfyniadau yng Nghyllideb 2018-19 ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae hefyd yn darparu diweddariad ar feysydd o ddiddordeb penodol i’r Pwyllgor.

## 2.0 Cyllideb yn Ystod y Flwyddyn 2018-19

Caiff y newidiadau i’r gyllideb rhwng Cyllideb Derfynol 2018-19 a Chyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer MEG yr Economi a Thrafnidiaeth eu crynhoi yn **Atodiad A**. Cyhoeddwyd dyraniadau cyfalaf ychwanegol o £55.278 miliwn eu cyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ochr yn ochr â’r Adolygiad Canol Cyfnod ar gyfer Cynllun Seilwaith a Buddsoddi Cymru ar 1 Mai 2018. Maent yn croesi cyfrifoldebau portffolio a gynhwysir i ddangos y buddsoddiad cydlynol i gyflenwi seilwaith modern a chysylltiedig a hyrwyddo ac amddiffyn safle Cymru yn y byd.

Mae sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn hanfodol i gyflenwi cydlyniant cymdeithasol a mynediad i gyfleoedd cyflogaeth. Bydd buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £30 miliwn yn Rhanbarth Caerdydd yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu systemau trafnidiaeth integredig sy’n gyrru twf economaidd. Mae gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn cefnogi ein dyheadau i leihau allyriadau drwy leihau’r defnydd o geir a darparu cerbydau glanach a mwy effeithlon gan arwain at ganlyniadau da ar gyfer ein hiechyd a’n hamgylchedd.

Mae parhau i ddarparu cyllid refeniw o £1 filiwn ar gyfer teithio ar lwybrau bws Traws Cymru am ddim hefyd yn bwysig i gynhyrchu twf parhaus ymhlith teithwyr a newid moddol o deithio mewn ceir i drafnidiaeth gyhoeddus ar goridorau allweddol mewn ardaloedd gwledig.

Er mwyn cydnabod y manteision pellgyrhaeddol sy’n gysylltiedig â lefelau uwch o deithio llesol a chysylltiadau, bydd dyraniad ychwanegol o £20 miliwn yn 2018-19 yn cefnogi ein Cronfa Teithio Llesol i roi hwb i’r broses o gyflenwi cynlluniau teithio llesol ledled Cymru. Cyfanswm y buddsoddiad dros y tair blynedd nesaf yw £60 miliwn. Ceir manylion pellach ar y dyraniadau i awdurdodau lleol yn y Datganiad Ysgrifenedig ar 10 Awst ac maent ar gael ar:

https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/activetravelallocations/?skip=1&lang=cy

Yn unol â'n Cynllun Gweithredu Economaidd newydd, mae'r Cymoedd Technoleg yn ymgorffori egwyddorion twf, gwaith teg a datgarboneiddio. Caiff rhaglen £100 miliwn y Cymoedd Technoleg ei darparu dros 10 mlynedd drwy bortffolio o brosiectau technoleg cysylltiedig ac ategol, ynghyd â chefnogaeth ar gyfer datganiadau buddsoddi. Bydd y cyllid ychwanegol o £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf yn cefnogi'r gwaith o greu mwy na 1,500 o swyddi yn rhanbarth Blaenau Gwent. Mae Cynllun Strategol y Cymoedd Technoleg ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://gov.wales/docs/det/publications/cynllun-strategol-y-cymoedd-technegol.pdf

**Masnachfraint Rheilffyrdd Newydd /Contract ODP Metro**

Ers fy llythyr i'r Pwyllgor, dyddiedig 20 Tachwedd 2017, mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod Trafnidiaeth Cymru wedi penodi Partner Cyflenwi Gwasanaethau Rheilffyrdd, Keolis Amey, i weithredu Contract nesaf Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau o fis Hydref eleni. Ceir manteision a chyfleoedd sylweddol o ganlyniad i'r penodiad, gan gynnwys rhaglen fuddsoddi £1.9 biliwn sy'n cefnogi ein hamcanion i drawsnewid y gwasanaeth rheilffyrdd i gymunedau a phobl ledled Cymru a'r gororau drwy:

- Creu rhwydwaith wrth wraidd cymunedau, sy'n hygyrch i bawb, 7 diwrnod yr wythnos.
- Cynyddu symudedd cymdeithasol ac ymestyn hygyrchedd, gan gysylltu pobl â swyddi, addysg, iechyd a hamdden.
- Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol fyth i fusnesau a thwristiaid.
- Gwneud teithio ar drenau yn bleserus, gan alluogi pobl i weithio a chwarae wrth deithio ar drenau mwy cyfoes a gwyrdd sy'n defnyddio cysylltiadau digidol y genhedlaeth nesaf.

Roedd cynlluniau'r gyllideb ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn seiliedig ar broffil rhagdybiedig ar gyfer cost y Contract Gwasanaethau Rheilffyrdd o £150 miliwn (prisiau 2016-17) yn 2018-19 (yn seiliedig ar chwe mis o'r contract cyfredol a chwe mis o'r contract newydd) a £120 miliwn (prisiau 2016-17) yn 2019-20 (ar gyfer blwyddyn lawn y contract newydd). Y disgwyliad, a nodwyd fel yr amlen gyllido wreiddiol, oedd y byddai'r costau yn cynyddu yn y dyfodol i gyrraedd £150 miliwn (prisiau 2016-17) pan fyddai gwasanaethau Metro De Cymru yn gweithredu'n llawn o 2023-24.

Roedd yr amlen gyllido wreiddiol ar gyfer y Contract Gwasanaethau Rheilffyrdd yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau. Yn ystod ein hymarfer caffael, cafodd rhai o'r rhagdybiaethau hyn eu haddasu i ddiwallu gofynion cydymffurfiaeth ac eraill i sicrhau bod y manteision i deithwyr yn cael eu cyflawni yn gyflymach, gan gynnwys:

- Buddsoddiad cynnar mewn trenau newydd ac wedi'u hadnewyddu.
- Buddsoddiad cynnar mewn gorsafoedd, meysydd parcio a chyfleusterau cyfnewid.
- Buddsoddiad cynnar mewn gwasanaethau ychwanegol.

- Moderneiddio’r broses gynnal a chadw a seilwaith arall sy’n cefnogi’r gwaith o wella perfformiad a dibynadwyedd.
- Cynigion newydd ar gyfer tocynnau a phrisiau, gan gynnwys seilwaith tocynnau digysylltiad.
- Datblygu economaidd drwy gyflogaeth.
- Cynnal a chadw ail berson sy’n gyfrifol am faterion diogelwch a chritigol ar bob gwasanaeth rheilffordd trwm.

Mae’r cyfleoedd a’r gofynion uchod yn golygu bod rhai o’r costau’n cael eu talu’n gynnar yn y broses ac o ganlyniad, bydd angen adnoddau ychwanegol yn y tymor byr. Yn 2018-19 costau amcangyfrifedig masnachfraint gyfredol Arriva Trains Wales ynghyd â’r contract newydd yw £178.8 miliwn, y mae darpariaeth o £150.3 miliwn ar gyfer hyn yn y gyllideb gyhoeddedig. Gwnaed dyraniad ychwanegol o £28.5 miliwn o’r cronfeydd refeniw canolog.

Caiff cytundeb i gyfnewid cyfalaf am refeniw a gytunwyd gan Drysorlys EM i dalu am y tâl addasu mynediad o £24.89 miliwn ar gyfer 2018-19 ei adlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol. Caiff yr ad-daliad ar gyfer tâl mynediad blynyddol ar gyfer 2020-21 ei drafod yn fanylach o dan adran 3.0.

Mae cost gyffredinol y Contract Gwasanaethau Rheilffyrdd dros y cyfnod o 15 mlynedd o fewn yr amlen gostau wreiddiol a ddiffiniwyd ar ddechrau’r broses gaffael. Bydd yn cyflawni arbediad o 16% o’i gymharu â pharhau â’r fasnachfraint gyfredol a’r trefniadau addasu tâl mynediad. At hynny, mae cost refeniw y Contract Gwasanaethau Rheilffyrdd ddau y cant (cost gyfredol net) yn is na’r amlen gostau refeniw a ddarparwyd ar ddechrau’r ymarfer caffael.

Bydd y Contract Gwasanaethau Rheilffyrdd yn cyflenwi yn erbyn yr ymrwymiadau a nodwyd yn *Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd*, y blaenoriaethau yn *Ein Cymoedd: Ein Dyfodol*, a’r nodau yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.* Mae’r blaenoriaethau polisi penodol a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymarfer caffael wedi’u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â gwella ein safle ariannol dros gyfnod y contract ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd, aeth y contract buddugol y tu hwnt i’r gofyniad caffael sylfaen bod yr isafswm lefel gwasanaethau yr un mor dda â’r hyn a gynigir yn bresennol. Bydd partner cyflenwi gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn cyflenwi’r prif fanteision a ganlyn, y mae llawer ohonynt yn cyfateb â’r Cynllun Gweithredu Economaidd, fel rhan o’r contract:

- Bydd busnes Keolis Amey yn y DU yn symud ei bencadlys i Gymru o Lundain erbyn 2019, a bydd ei adran rheilffyrdd rhyngwladol yn symud i Gymru o Baris erbyn 2020, dyma dîm a fydd yn darparu arbenigedd i’w holl weithredoedd rheilffyrdd ledled y byd.

- Bydd Cledrau’r Cymoedd yn cael eu trawsnewid i weithredu 100 y cant heb ddiesel, gam ddefnyddio trydan o ffynonellau 100 y cant adnewyddadwy (50 y cant o ffynonellau o fewn Cymru).

- Mwy o drenau, mwy o wasanaethau – 80 y cant yn fwy o filltiroedd fesul sedd bob wythnos, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth saith diwrnod go iawn, gyda gwasanaethau newydd yn cychwyn gyda'r nos ym mis Rhagfyr 2019 gyda chynnydd o 22 y cant yn y milltiroedd ar ddydd Sul, a gwasanaethau ychwanegol i gyrchfannau ledled Cymru gyda mwy o gysylltiadau â rhanbarthau'r gororau.

- Bydd 95 y cant o deithiau yn cael eu gwneud ar drenau newydd sbon a bydd oedran cyfartalog y trenau yn disgyn i 25 mlynedd i saith erbyn 2023.

- Bydd Cam 2 Metro De Cymru yn darparu pedwar trên yr awr o Dreherbert, Aberdâr a Merthyr o 2022 (mae dau drên yr awr ar hyn o bryd), a phedwar trên yr awr o Rymni o 2023 (mae un trên yr awr ar hyn o bryd).

- Bydd plant o dan 11 oed yn gallu teithio am ddim pan fyddant yn teithio gydag oedolyn, a chaiff y prisiau gostyngol eu hymestyn i blant 16-18 oed a phobl ddi-waith hirdymor.

- Nid yw partner cyflenwi gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl talu difidendau i'w randdeiliaid am y 5 mlynedd gyntaf, gan ail-fuddsoddi elw i gyllido buddsoddiad.

- Buddsoddi bron £200 miliwn mewn gorsafoedd ar draws y rhwydwaith, gan eu gwneud yn lanach, yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch.

- Caiff 600 o swyddi newydd eu creu dros gyfnod y contract a chaiff 30 o brentisiaethau eu hychwanegu bob blwyddyn.

- Bydd partner cyflenwi rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi drwy weithio gyda mentrau bach a chanolig eu maint, yn ogystal â'r trydydd sector.

Yn y dyfodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth gyflenwi yn erbyn y Cynllun Gweithredu Economaidd sy'n nodi y byddwn hefyd yn ymestyn y bartneriaeth o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff fel Banc Datblygu Cymru i sicrhau dull cydlynol o ddatblygu ein heconomi a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir drwy'r fasnachfraint hon a thrwy brosiectau Metro ledled Cymru.

## 3.0 Addasu'r Tâl Mynediad

Caiff goblygiadau ariannol y cytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth sy'n ymwneud â'r system gyfredol ar gyfer addasu'r tâl mynediad eu crybwyll o fewn y cytundeb Cyllido ac Allbynnau. Yn bwysig, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n cadw'r risg reoleiddiol a'r cyfle i wneud newidiadau yn y dyfodol i'r taliadau am dâl mynediad i Network Rail sy'n deillio o

adolygiadau rheoleiddio, sy'n golygu y caiff contract gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ei drin yn yr un ffordd ag unrhyw fasnachfraint arall ac na fydd effaith negyddol ar brisiau na lefelau gwasanaethau. Cyhoeddwyd y Cytundeb Cyllido ac Allbynnau ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn cofio adroddiad blaenorol yn nodi'r gofyniad i Lywodraeth Cymru dalu mwy nag £1 biliwn i Lywodraeth y DU dros y 15 mlynedd nesaf mewn perthynas â chontract Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Mae'r gofyniad hwn bellach wedi'i ail-negodi, ac yn nodi sut y bydd y system yn gweithio.

Yn ystod cyfnod pontio, a ddyluniwyd i ystyried y ffordd y caiff Llywodraeth Cymru ei hariannu a rhagdybiaethau Adolygiad o Wariant Trysorlys EM (2017 – 2020), bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud dau daliad i'r Adran Drafnidiaeth o £24.89 miliwn yn 2018-19 a £71.8 miliwn yn 2019-20. Caiff y costau hyn eu cynnwys o fewn cyllidebau cyfredol Llywodraeth Cymru. O 2020-21 bydd y system gyfredol o Addasu'r Tâl Mynediad yn dod i ben.

Caiff trefniant newydd ei roi ar waith, gyda gwaelodlin sy'n cyfateb i'r taliadau mynediad a ragwelwyd yn ein contract newydd ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (ac felly, caiff y trefniant hwnnw ei gynnwys yn y sylfaen costau cyffredinol ar gyfer y contract). Mae hyn yn golygu y caiff taliadau addasu yn y dyfodol sy'n deillio o adolygiadau rheoleiddio, rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth neu rhwng yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru, yn cael eu pennu drwy gymharu taliadau mynediad gwirioneddol a dalwyd i Network Rail â'r taliadau yn ein contract gwasanaethau rheilffyrdd. Os bydd y taliadau mynediad gwirioneddol yn cyfateb â'r lefel yn ein contract yna ni fydd angen gwneud addasiad y naill ffordd neu'r llall.

Ar yr un pryd, bydd Llywodraeth y DU yn talu £2 filiwn i Lywodraeth Cymru yn 2018-19 a £4.4 miliwn ar gyfer 2019-20 i weithredu'r rhan o'r contract sy'n ymwneud â Lloegr yn unig. Ar gyfer y blynyddoedd ar ôl hynny, caiff y cyllid ar gyfer gwasanaethau Lloegr yn unig eu mynegeio gan ddefnyddio'r un fethodoleg sy'n berthnasol i daliadau masnachfraint cyfwerth.

O fewn y cytundeb Cyllido ac Allbynnau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ail-gadarnhau ei ymrwymiad i ddarparu £125 miliwn (prisiau 2014) tuag at gost Metro De Cymru, a dynnir i lawr yn unol â gwariant.

## 4.0 Brexit

Ni all Llywodraeth y DU gyflawni ei chyfrifoldebau o ran sicrhau bod y DU gyfan yn barod heb weithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig – gyda'n cyfrifoldebau helaeth ar gyfer trafnidiaeth, datblygiad economaidd, amaethyddiaeth, iechyd, ynni a'r amgylchedd – a fydd oll yn cael eu heffeithio'n fawr gan Brexit.

Er gwaethaf cefndir o ansicrwydd, gwnaethom gymryd camau yn syth ar ôl y refferendwm i symud adnoddau ac i ddatblygu gallu ar draws llywodraeth i ymateb i Brexit. Mae hyn wedi sicrhau ein bod wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid o'r cychwyn i ddeall eu pryderon a'u blaenoriaethau ac i fod yn

weithgar wrth osod safleoedd polisi cydlynol i ddylanwadu ar ddull Llywodraeth y DU o ymdrin â'r negodiadau sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a pharatoi ar gyfer canlyniadau posibl lluosog. Rydym wedi cynhyrchu cynigion polisi manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar sut y gallai'r math cywir o Brexit ddiogelu swyddi a chyflwyno cynigion ar fasnach, mewnfudo, dyfodol y DU ac amrywiaeth o faterion eraill unwaith y byddwn wedi gadael yr UE.

Rydym yn darparu help i sefydliadau ledled Cymru i baratoi ar gyfer Brexit gyda chronfa ymroddedig o £50 miliwn. Bydd y gronfa hon (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018) yn helpu busnes, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner eraill yng Nghymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau Brexit.

Ochr yn ochr â chamau gweithredu mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sefydlu strwythurau cydlynu Gweinidogol i oruchwylio gweithgareddau Brexit ym mhob un o adrannau Llywodraeth Cymru a sefydlu Tîm Pontio Ewropeaidd ymroddedig i gydlynu gweithgareddau Brexit Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymgysylltu yn eang.

Yn allanol, rydym wedi sefydlu amrywiaeth o strwythurau i ymgysylltu â sefydliadau ledled Cymru, gan gwmpasu'r sectorau preifat, cyhoeddus a thrydydd, er mwyn i ni allu cael sgyrsiau agored ar effaith Brexit, caffael gwybodaeth am eu profiadau a chydweithio i baratoi ar gyfer y goblygiadau ymarferol niferus sydd ynghlwm wrth ymadael â'r UE.  Ymhlith y rhain mae:

- Grŵp Cynghori ar Ewrop, sy'n dod ag arweinwyr busnes, cynrychiolwyr o brifysgolion, undebau llafur, amaethyddiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, gwleidyddion a'r trydydd sector ynghyd i'n cynghori ar oblygiadau Brexit ar gyfer Cymru.

- Gweithgor Addysg Uwch ar gyfer Brexit – gydag uwch gynrychiolwyr o'r sectorau AU ac AB – i ddarparu cyngor ar oblygiadau Brexit ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru.

- Gweithgor UE y Cyngor ar gyfer Datblygu Economaidd gydag uwch arweinwyr busnes a sefydliadau a gadeiriwyd gan Ysgrifennydd yr Economi. Mae Ysgrifennydd yr Economi hefyd wedi helpu digwyddiadau masnach sy'n ymwneud â Brexit i glywed gan fusnesau.

- Grŵp Rhanddeiliaid Bord Gron ar Brexit yr Amgylchedd a Materion Gwledig a sefydlwyd ar ôl y refferendwm, fel fforwm ar gyfer ymgysylltu a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sectorau bwyd, pysgodfeydd, ffermio, coedwigaeth a'r amgylchedd.

- Ym maes iechyd, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid iechyd a gofal allweddol trwy'r prif gyrff cynrychiadol: Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.  Rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau a sefydliadau penodol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain a chyfarwyddwyr meddygol y GIG.

- Rydym hefyd yn ymgysylltu drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, Fforwm Ffydd a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Ar 23 Awst cyhoeddodd Llywodraeth y DU y cyntaf o'i "hysbysiadau technegol" sy'n cynnwys cyngor ar gyfer busnesau, dinasyddion a chyrff cyhoeddus ar yr hyn y dylid ei wneud os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb (Brexit 'dim bargen'). Barn Gweinidogion Cymru yw y byddai canlyniad 'Dim bargen' yn fethiant trychinebus gan Lywodraeth y DU a fyddai'n achosi amharu anferthol a niwed cymdeithasol ac economaidd hirdymor a difrifol i bob rhan o'r DU. Petai Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'r glasbrint ar gyfer negodiadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dros 18 mis yn ôl, gallent fod wedi gwneud cynnydd sylweddol ar bartneriaeth gyda'r UE yn y dyfodol. Gallent hefyd fod wedi osgoi'r sefyllfa a wynebwn heddiw lle y mae ein cyflogwyr mwyaf yn ystyried gadael y DU gan arwain at golli miloedd o swyddi ac amharu ar ein economi, mae ein prifysgolion mewn perygl o golli'r cyfle i fanteisio ar ymchwil hanfodol ac mae ein hysbytai yn rhybuddio ynghylch prinder staff yn golygu y bydd cleifion mewn perygl.

Mae Cymru yn croesawu'r ymdrech Llywodraeth y DU i esbonio rhai o'r problemau ymarferol sy'n debygol o godi os bydd canlyniad dim bargen i'r negodiadau cyfredol. Mae'r hysbysiadau hyn yn dangos y gwirionedd syml – byddai Brexit 'dim bargen' yn arwain at amharu enfawr, gan effeithio'n ddifrifol ar ein heconomi, swyddi, masnach, gwasanaethau ac amrywiaeth o sectorau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cynnydd Llywodraeth y DU o ran ymgysylltu â Gweinyddiaethau datganoledig ar y gwaith o ddatblygu'r hysbysiadau a chynllunio wrth gefn ehangach mewn perthynas â 'dim bargen', ond mae llawer mwy y gallai'r DU ei wneud o ran cydweithio â ni ar bob elfen o negodiadau a pharatoadau ar gyfer ymadael â'r UE. Rydym wedi pwysleisio'n gryf dros ar ôl tro bod angen i Lywodraeth y DU rannu gwybodaeth yn gywir am y camau a gymerwyd hyd yma i baratoi at Brexit. Rydym yn falch bod hyn yn dechrau digwydd ond mae angen cynyddu'r llif o wybodaeth ymhellach. Y realiti yw bod ein gallu i gynllunio yn cael ei gyfyngu gan yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei rannu â ni.

Beth bynnag yw ffurf Brexit, bydd y DU yn ymadael â'r UE yn arwain at amharu. Dyma pam y byddwn, fel llywodraeth gyfrifol, yn parhau i gynllunio ar gyfer yr holl ganlyniadau posibl. Mae'n hanfodol bod yr holl weinyddiaethau ledled y DU yn cydweithio i gynllunio'r ffordd o leihau'r effeithiau mwyaf difrifol a ddeillio o fethiant yn y negodiadau rhwng y DU a'r UE27 – mae Llywodraeth Cymru yn hollol ymrwymedig i wneud hyn.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn ffynonellau ychwanegol o gyllid, gan gynnwys cymeradwyo £150 miliwn o gyllid Her Ddiwydiannol pellach yn aros am gymeradwyaeth.

## 5.0 Bwrdd Cynghori Gweinidogol

Mae cyngor o ansawdd da, sy'n berthnasol ac yn amserol, yn hanfodol oddi wrth ffynonellau allanol er mwyn llywio proses effeithiol o wneud polisïau ac mae'r Bwrdd Cynghori Gweinidogol yn cryfhau'r capasiti i gael cyngor allanol sy'n gadarn ac yn heriol. Mae'r gwaith o sefydlu'r Bwrdd newydd yn adeiladu ar y thema o symleiddio a bod yn dryloyw, gan fod proses o gael gwared ar nifer o banelau, grwpiau a byrddau sector ynghlwm wrtho. Mae gan y Bwrdd newydd hwn gylch gwaith eang ar draws y diwydiant cyfan ac mae'n rhaid iddo gynghori ar greu economi gynaliadwy yn y dyfodol ar gyfer Cymru.

O ganlyniad i'r broses symleiddio hon, mae nifer o'm panelau a byrddau cynghori wedi dod i ben neu wedi'u cyfuno. Yn nhermau panelau sector, mae'r rhai sy'n ymwneud ag ynni a'r amgylchedd, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, TGCh, ac adeiladu wedi dod i ben. Caiff panel y sector Diwydiannau Creadigol ei ddisodli gan fwrdd ar gyfer Cymru Greadigol. Rydym wedi dechrau'r broses Penodiadau Cyhoeddus ac yn disgwyl iddi fod ar waith ar ddechrau 2019. Mae rolau Panel y Sector Gwyddorau Bywyd a phanel y sector Gweithgynhyrchu Uwch a Deunyddiau eisoes wedi'u disodli gan yr Hwb Gwyddorau Bywyd a Diwydiant Cymru yn y drefn honno.

Rwyf hefyd wedi rhoi terfyn ar y Byrddau Ardaloedd Menter ar gyfer Ardal Fenter Caerdydd Ganolog ac Ardal Fenter Sain Tathan. Bydd Bwrdd Ardal Fenter Glyn Ebwy hefyd yn dod i ben, gyda Bwrdd Parc Technoleg yn cynrychioli'r swyddogaethau perthnasol. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer pontio tuag at gyfuno Ardaloedd Menter Eryri ac Ynys Môn a rhoi terfyn ar Fwrdd Glannau Dyfrdwy wrth iddo symud i fod yn Fwrdd Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch.

Mae'n bwysig cydnabod yr hyn sydd angen ei ystyried mewn perthynas â'r sefyllfa hon. Mae angen i ni wahaniaethu rhwng y cyrff hynny sy'n darparu swyddogaeth statudol a'r rhai nad ydynt yn darparu swyddogaeth o'r fath. Mae hefyd angen i ni fod yn glir ynghylch yr hyn a olygir gan 'fwrdd cynghori'. Yn arbennig, mae angen cydnabod y gwahaniaeth amlwg iawn rhwng cyrff sy'n darparu cyngor i Lywodraeth Cymru a chyrff cynghori Llywodraeth Cymru h.y. y grwpiau, panelau a byrddau hynny a sefydlwyd ac a benodwyd gan Weinidogion Cymru gyda'r diben o ddarparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â datblygu economaidd a thrafnidiaeth.

Pan gaiff y ffigur a ddyfynnir yn aml o 48 o fyrddau cynghori ei ddadansoddi, daw'n amlwg ei fod yn cynnwys cyrff sy'n darparu swyddogaethau statudol fel Cyngor Datblygu'r Economi, Bwrdd Cynghori Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol yn ogystal â chyrff sydd y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi canolbwyntio ar symleiddio'r grwpiau hynny y mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt – fel panelau sector a byrddau ardaloedd menter. Wrth i'r Bwrdd Cynghori Gweinidogol ddatblygu ac aeddfedu, byddwn yn ystyried cyfleoedd pellach ar gyfer y broses symleiddio.

## 6.0 Cynllun Gweithredu Economaidd

<u>Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Economaidd</u>

Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Economaidd ym mis Rhagfyr 2017, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn i weithredu ac ymgorffori elfennau allweddol y Cynllun. Rhan flaenllaw a chanolog o'r gwaith hwn oedd y broses o ddatblygu a chyflwyno'r model gweithredu newydd (Contract Economaidd, Galwadau i Weithredu a Chronfa Dyfodol yr Economi). Dyma sydd wrth wraidd y Cynllun ac sydd bellach yn amlinellu ein perthynas gyda busnes.

Ochr yn ochr â'r model gweithredu newydd, rydym hefyd wedi cymryd camau i symleiddio a chryfhau'r ffordd y caiff cyngor ei ddarparu er mwyn sicrhau ei fod yn strategol, cydlynol ac effeithiol. Rydym wedi cyflawni hyn drwy sefydlu Bwrdd Cynghori Gweinidogol newydd (cyngor allanol) a Bwrdd Cyflenwi ar Draws Llywodraeth (cyngor mewnol).

Ein ffocws bellach yw gweithredu agweddau allweddol eraill ar y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys sectorau datblygu economaidd rhanbarthol a sylfaen.

<u>Model gweithredu Newydd (Contract Economaidd, Galwadau i Weithredu a Chronfa Dyfodol yr Economi)</u>

*Contract Economaidd*

Mae'r cynnydd cynnar a da a wnaed gennym wrth ymgorffori'r Contract Economaidd yn bwysig oherwydd ei fod wrth wraidd ein model gweithredu newydd, i newid y ffordd rydym yn darparu ac er mwyn sicrhau dyheadau twf cynhwysol y Cynllun Gweithredu Economaidd.

Hyd yma (Awst 2018) rydym wedi cwblhau 44 o Gontractau Economaidd gyda busnesau. Mae'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth dda o fusnesau o wahanol feintiau, mewn sectorau gwahanol a rhannau gwahanol o Gymru. Maent yn darparu llawer o wersi rydym yn eu dysgu er mwyn i ni eu defnyddio wrth ledaenu arfer dda.

*Galwadau i Weithredu*

O'r cychwyn, rydym wedi bod yn glir na fyddem yn ôl-gymhwyso Galwadau i Weithredu i achosion lle roeddem eisoes mewn trafodaethau manwl â busnesau ynghylch cynnig buddsoddi. Yn naturiol, mae amser yn mynd rhagddo rhwng rhoi'r Galwadau i Weithredu ar waith a derbyn cynigion buddsoddi busnes newydd sy'n cyfateb â hwy. Fodd bynnag, rydym bellach yn dechrau gweld llif o gynigion o'r fath ac mae 67 wedi cyrraedd cam pell.

Mae'r Galwadau i Weithredu yn ymwneud â diogelu'r dyfodol ac yn cynrychioli meysydd lle rydym eisiau gweithio gyda busnesau. Mae pob Galwad i Weithredu yn cynnwys, ar lefel uchel, y canlyniadau rydym yn ceisio eu sicrhau, ond rydym yn gweithio i ddatblygu metrigau a chanllawiau manylach i gefnogi asesiadau gwerth am arian. Dyma broses ailadroddol ac mae'n cael ei llywio gan y gwersi rydym yn eu dysgu o'n profiadau o'r Galwadau i Weithredu.

*Cronfa Dyfodol yr Economi*

Mae Cronfa Dyfodol yr Economi yn darparu'r sail ariannol i'n model gweithredu newydd. Mae'n darparu darlun clir i fusnesau ar sut y gallant gael cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi Galwadau i Weithredu. Rydym wedi cyfuno chwe chronfa o fewn Cronfa Dyfodol yr Economi, sef:

- Buddsoddiad Cyfalaf a chymorth ar gyfer creu swyddi.
- Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (gan gynnwys SMART Cymru).
- Cynllun Amddiffyn yr Amgylchedd (EPS).
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS).
- Cyllido Cynhyrchu Creadigol.
- Cronfa Ad-daladwy ar gyfer BBaChau.

Rydym wedi dweud y byddwn yn cyfuno cymaint o'r cyllid uniongyrchol â phosibl ac sy'n ymarferol i Gronfa Dyfodol yr Economi. Mae'n rhaid i hyn fod yn rhan o broses bontio wedi'i rheoli a fydd yn cymryd amser. Rydym eisiau gweld sut y bydd Cronfa Dyfodol yr Economi yn gweithredu'n gyntaf, ymgorffori dysgu a gweld beth y mae busnesau yn dweud wrthym cyn cymryd y cam pellach o gyfuno rhagor o lifau cyllido. Yn 2018-19 y gyllideb gyfalaf sy'n cefnogi busnesau yw £50 miliwn a'r gyllideb arloesedd yw £3.8 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei gyllid craidd ochr yn ochr â chyllid Strwythurol Ewropeaidd er budd yr economi, yn enwedig y meysydd blaenoriaeth sydd ynghlwm wrth seilwaith, hyfforddiant, sgiliau ac arloesedd.

Yn glir, oherwydd ein bod wedi cyfuno nifer o gronfeydd sy'n bodoli eisoes, mae'n anochel y bydd Cronfa Dyfodol yr Economi yn cynnwys ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol y cytunwyd arnynt cyn i'r model gweithredu newydd ddod i rym. Mae'n bwysig i ni barchu'r ymrwymiadau hynny ac felly am y tro, bydd Cronfa Dyfodol yr Economi yn cefnogi prosiectau etifeddol y cytunwyd arnynt cyn y Cynllun Gweithredu Economaidd.

Fodd bynnag, dros amser, byddwn yn gweld y prosiectau etifeddol hynny yn lleihau ychydig a chynnydd yn y gyfran o'r cymorth a ddarparwn i brosiectau newydd y cytunwyd arnynt o dan fodel gweithredu newydd y Contract Economaidd, Galwadau i Weithredu a Chronfa Dyfodol yr Economi. Ers lansio Cronfa Dyfodol yr Economi ym mis Mai, rydym wedi ymrwymo i ychydig dros £6.2 miliwn o gymorth ariannol i 29 o fusnesau.

Bydd cyllidebau yn parhau i gael eu halinio a'u hailflaenoriaethu yn ystod y broses o bontio i'r model gweithredu newydd. Caiff y gyllideb ei diwygio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019-20.

Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Mae'r Cynllun yn gynllun ar gyfer Cymru gyfan ac rwyf eisiau galluogi pob rhan o Gymru i ddatblygu eu cryfderau a'u cyfleoedd, er mwyn iddynt nid yn unig cyfrannu'n fwy at iechyd a llesiant, ond hefyd gallu elwa arnynt. Dyma pam mae

datblygu ein dull Datblygu Economaidd Rhanbarthol wrth wraidd y cam nesaf hwn o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Economaidd.

Mae'r broses o gynhyrchu cynlluniau rhanbarthol yn rhan hanfodol o ddatblygu economaidd rhanbarthol ond nid dyma'r unig elfen sydd ynghlwm wrth y gwaith hwn. Mae hyn oherwydd bod yr agenda datblygu economaidd rhanbarthol yn un enfawr, sydd â sawl rhan symudol, gan gynnwys dyfodol buddsoddi rhanbarthol mewn tirwedd ar ôl Brexit. Yn y cyd-destun hwn, mae'r cynlluniau rhanbarthol yn hanfodol i egluro blaenoriaethau a chreu undod o ran dibenion y blaenoriaethau hynny.

Rydym wedi sefydlu pedair egwyddor allweddol sy'n arwain ein gwaith ar ddatblygu cynlluniau rhanbarthol, sef:

- Mae'n rhaid i Gynlluniau Rhanbarthol ychwanegu gwerth ac ni ddylent ddyblygu cynlluniau rhanbarthol eraill fel Bargeinion Dinas a Thwf.

- Mae'n rhaid iddynt gydbwyso uchelgais a'r gallu i gyflenwi – gan gydnabod cyfleoedd, ond hefyd cyfyngiadau.

- Mae angen iddynt gael eu gwreiddio yn ein gweledigaeth, agenda a rhwymedigaethau strategol fel y'u nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Economaidd, Ffyniant i Bawb a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Ni ddylent fod yn rhywbeth a osodir o'r brig i lawr, ond dylid eu creu a'u datblygu gyda'n partneriaid yn y rhanbarthau.

Mae'r Prif Swyddogion Rhanbarthol yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid ym mhob rhanbarth i helpu i lywio'r dull gweithredu. Gan fod rhaid i ddatblygu economaidd rhanbarthol fod yn fenter ar y cyd ar draws Llywodraeth, rydym hefyd wedi gwneud yr agenda hon yn ffocws allweddol i'r Bwrdd Cyflenwi ar Draws y Llywodraeth. Rydym eisoes wedi cael trafodaeth dda gyda'r Bwrdd yn cwmpasu amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys cwmpas y cynlluniau rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn dwysáu dros yr hydref, pan ddisgwyliaf i'r mater hwn gael ei gyflwyno i'r Cabinet gyda'r bwriad o wneud cyhoeddiad cyn diwedd y flwyddyn.

<u>Sectorau Sylfaen</u>

Rydym wedi nodi pedwar sector sylfaen (bwyd; manwerthu; gofal a thwristiaeth) lle rydym yn credu bod cwmpas i weithio'n fwy effeithiol ar draws Llywodraeth a gyda'r sectorau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau. Wrth wneud hynny, rydym yn credu y gallwn helpu i:

- Gwella ansawdd, cynaliadwyedd a rhagolygon y sectorau hyn.

- Newid canfyddiadau o ran gwaith yn y sectorau hyn er mwyn ategu'r broses o recriwtio, cadw a gwneud cynnydd.

- Gwneud y gorau o effaith y lleoliadau.

Mae’n bwysig datblygu cynllun galluogi yn y cyd-destun hwnnw oherwydd y bydd yn llywio gweithgareddau ar draws y llywodraeth ac yn helpu’r sectorau i ymdrin â dulliau cyffredin o ymdrin â phroblemau cyffredin.

Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth a gyda sectorau i nodi themâu, cyfleoedd a heriau cyffredin a’r ymatebion posibl i’r rhain fel sylfaen ar gyfer un cynllun galluogi sector sylfaen integredig a strategol.  Rydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa i gyhoeddi cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr eleni.

## Atodiad A – Cynllun 2018-19 – Trosolwg o Newidiadau i'r Gyllideb



| **MEG yr Economi a Thrafnidiaeth – Newidiadau i'r Gyllideb yn Ystod y Flwyddyn** | | **Adnodd £'000** | **Cyfalaf £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2018-19** | | **654,625** | **412,601** | **1,067,226** |
| **Dyraniadau o'r Cronfeydd Canolog** | | | | |
| Cymorth Bysiau | Bydd cyllid ar gyfer TrawsCymru yn cefnogi teithio ar fysiau am ddim ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n strategol bwysig ar lwybrau allweddol nas gwasanaethir gan y rhwydwaith rheilffyrdd. | 1,000 | - | 1,000 |
| Cymoedd Technoleg | Mae'r buddsoddiad yn cefnogi prosiect £100 miliwn i ddarparu gofod gweithgynhyrchu newydd gyda ffocws ar dechnolegau newydd. Mae'n cefnogi'r rhaglen "Ein Cymoedd Ein Dyfodol". *Cyfanswm y dyraniad yw £25 miliwn (2019-20 £10 miliwn a 2020-21 £10 miliwn)* | - | 5,000 | 5,000 |
| Band Eang y Genhedlaeth Nesaf – ***Portffolio Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip*** | Mae'r buddsoddiad yn cefnogi Cam 2 Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy i'r ardaloedd hynny yng Nghymru nas gwasanaethir gan y farchnad. *Cyfanswm y buddsoddiad yw £31.5 miliwn (2019-20 £16 miliwn a 2020-21 £6.5 miliwn)* | - | 9,000 | 9,000 |
| Datblygiadau i Drafnidiaeth | Bydd y dyraniad o'r gronfa gyfalaf trafodion ariannol yn cefnogi datblygiadau o ran y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd. | - | 30,000 | 30,000 |
| Teithio Cynaliadwy, Cerdded a Beicio | Bydd y buddsoddiad yn cyflymu'r llwybrau teithio llesol i gysylltu ardaloedd preswyl gyda safleoedd a gwasanaethau cyflogaeth ac addysgol allweddol. *Cyfanswm y buddsoddiad yw £60 miliwn (2019-20 £20 miliwn a 2020-21 £30 miliwn)* | - | 10,000 | 10,000 |
| Profiad ymwelwyr Cadw - ***Portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon*** | Mae'r buddsoddiad yn cefnogi profiad ymwelwyr Cadw gan gynnwys prosiectau mawr ar gyfer Castell Caerffili, Castell y Fflint, Cwrt Tretŵr, Castell Caernarfon a Phorth Mawr. *Cyfanswm y buddsoddiad yw £10 miliwn (2019-20 £3.8 miliwn a 2020-21 £4.5 miliwn)* | - | 1,278 | 1,278 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau Ychwanegol** | | **1,000** | **55,278** | **56,278** |
| **Cyllideb Ategol Gyntaf 2018-19** | | **655,625** | **467,879** | **1,123,504** |